Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
—
Welsh Parliament
**Equality, Local Government and Communities Committee**

Julie James AS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

30 Hydref 2020

Annwyl Julie

## Diogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn

Fel y gwyddoch, mae ein Pwyllgor wedi bod yn trafod materion yn ymwneud â diogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn ers y tân yn Nhŵr Grenfell. Rydym yn bwriadu ailedrych ar y materion hyn yn fanylach ar ôl cyhoeddi'r Papur Gwyn ar Ddiogelwch Adeiladau sydd, yn ôl a deallwn, yn debygol o gael ei gyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd. Tybed a allech chi ddweud yn fwy penodol pryd y disgwylir cyhoeddi’r Papur Gwyn hwn?

Yn y cyfamser, mae lesddeiliaid Prospect Place wedi cysylltu â mi i amlinellu rhai o'r problemau y maent yn eu hwynebu. Rwyf wedi cytuno y byddwn yn tynnu’ch sylw at eu pryderon. Mae'r llythyr a gefais ganddynt wedi'i atodi.

Nodaf fod y Prif Weinidog wedi ymateb i gwestiwn am ddiogelwch tân yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Hydref drwy ddweud:

> “Rydym ni'n edrych o fewn Llywodraeth Cymru ar y posibilrwydd o gronfa diogelwch adeiladau i gynorthwyo lesddeiliaid heb greu'r perygl moesol o dalu biliau landlordiaid a chwmnïau adeiladu aflwyddiannus. Byddai gwneud hynny yn gyfystyr â chymryd y cyfrifoldeb oddi arnyn nhw ac annog ymddygiad anghyfrifol yn y dyfodol. Ond rydym ni'n edrych ar ffyrdd y gellid cynorthwyo'r lesddeiliaid eu hunain, a gwn fod gan fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog sy'n gyfrifol am hyn, gyfarfod ddydd Iau yr wythnos hon i barhau i ddod o hyd i ffordd y gallwn ni ddiwallu eu hanghenion, heb greu, fel y dywedais, y perygl moesol o achub pobl gydag arian cyhoeddus o'r cyfrifoldebau preifat y dylen nhw eu cyflawni.”

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCymunedau@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCommunities@senedd.wales
0300 200 6565

A allech chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y modd rydych chi'n ceisio ymdrin â'r materion hyn?

Rwyf wedi anfon copi o'r ohebiaeth hon at [redacted]

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

John

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

Wedi'i hamgáu: Gohebiaeth gan [redacted]